Ffioedd Archwilio ar gyfer Cyngor Cymuned Mawr o 2000-01

10/06/2013

Annwyl Gynghorydd Richard

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 30 Mai 2013, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 29 Mai 2013, sef:

A allwch nodi'r Ffioedd Archwilio blynyddol a godwyd mewn cyfansymiau blynyddol (nid oes angen dadansoddiad o'r manylion mewn gwirionedd) ar gyfer Cyngor Cymuned Mawr, Abertawe, ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn dechrau gyda Blwyddyn 2000 i 2001 hyd at y ffigurau diweddaraf sydd ar gael?

Dyma gyfanswm y ffioedd, ar gyfer pob blwyddyn dros y 12 i 13 blynedd diwethaf - neu mor bell yn ôl ag y gallwch yn gyfleus fynd. Sylweddolaf ei bod yn bosibl y bydd rhai Ffioedd Archwilio mewn blynyddoedd wedi'u compowndio am nifer o resymau.

Y symiau canlynol yw'r ffi archwilio safonol (heb gynnwys TAW) a gâi ei chodi fel arfer yn unol â Graddfa Ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer cynghorau tref a chymuned a mathau eraill o gyrff ag incwm neu wariant hyd at £1,000,000 (graddfa ffioedd y Comisiwn Archwilio ar gyfer blynyddoedd cyn 2005/06):

Blwyddyn Ariannol	**Graddfa ffioedd archwilio**	**Ffi archwilio safonol**	**Ffi archwilio wirioneddol a godwyd**
2000/01	Ffioedd y Comisiwn Archwilio - cyfraddau per diem	Dim ffi safonol. Codwyd ffioedd archwilio yn seiliedig ar yr amser a dreuliwyd ar yr archwiliad	Nis cedwir
2001/02	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig y Comisiwn Archwilio rhwng 2001/02 a 2005/06	£250	£250
2002/03	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig y Comisiwn Archwilio rhwng 2001/02 a 2005/06	£250	£250
2003/04	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig y Comisiwn Archwilio rhwng 2001/02 a 2005/06	£3/50	Nis cedwir
2004/05	Graddfa Ffioedd Archwilio	£250	Gweler isod

	Sicrwydd Cyfyngedig y Comisiwn Archwilio rhwng 2001/02 a 2005/06		
2005/06	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 2005/06 a 2010/11	£285	Gweler isod
2006/07	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 2005/06 a 2010/11	£285	Gweler isod
2007/08	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 2005/06 a 2010/11	£285	Gweler isod
2008/09	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 2005/06 a 2010/11	£285	Gweler isod
2009/10	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 2005/06 a 2010/11	£285	Gweler isod
2010/11	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 2005/06 a 2010/11	£285	£285
2011/12	Graddfa Ffioedd Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 2005/06 a 2010/1	Nid yw'r archwiliad wedi'i gwblhau eto	Dd/G

Dylwn esbonio i Swyddfa Archwilio Cymru gael ei ffurfio yn 2005 yn dilyn uno'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Fodd bynnag, fel y gwelwch o'r tabl uchod, rydym yn cadw rhywfaint o wybodaeth am y cyfnod rhwng 2000/01 a 2004/05.

Noder hefyd, ar gyfer y cyfnod rhwng 2004/05 a 2009/10, mai cyfanswm y ffi a godwyd oedd £10,752 (heb gynnwys TAW). Dengys y tabl uchod y ffioedd archwilio, gwerth cyfanswm o £1,675, a fyddai wedi'u codi fel arfer mewn cyngor lle na nododd yr archwilydd unrhyw faterion sylweddol megis y rhai a nodwyd yn adroddiad Anthony Barrett er budd y cyhoedd dyddiedig Rhagfyr 2011. Nid oes gennym ddadansoddiad o'r ffi wirioneddol ar gyfer y cyfnod hwn rhwng pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn

adlewyrchu'r ffaith bod y materion a nodwyd gan Mr Barrett yn effeithio ar fwy nag un flwyddyn ariannol.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, fodd bynnag os hoffech gwyno am y ffordd rwyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost neu lythyr ataf.

Mae croeso i chi gysylltu â mi hefyd os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Ian Phillips